## Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas Corris ac Ysgol Pennal

# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr 2022-2023

Annwyl Rieni

Mae'n fraint ac anrhydedd i mi fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal. Cewch gipolwg ar fywyd y Ffederasiwn, ei hystadegau a'i chyflawniadau am y flwyddyn a fu.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Corff Llywodraethol am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn gyfle i mi ddiolch i'r Pennaeth a holl staff yr ysgol am eu hymroddiad di-ffael. Hoffwn ddiolch i'n Pennaeth Mrs Nia Thomas-Evans am ei arweiniad cryf a chadarn yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel Prif Athrawes, a hefyd ei llongyfarch ar ei phriodas ym mis Awst.

Hoffwn ddiolch i Ffrindiau'r Ysgol am eu hymroddiad diflino i gynorthwyo'r Ffederasiwn mewn amryw ffyrdd.

Diolchaf hefyd yn ddiffuant i chi rieni am eich cefnogaeth gadarn.

Dylem fod yn hynod falch o Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal, lle mae'r holl ddisgyblion yn cael cefnogaeth i gyflawni eu llawn botensial ar gyfer eu dyfodol a dyfodol eu cymunedau.

Mr Dennis B Jones,

Cadeirydd y Corff Llywodraethol













## Aelodaeth Corff y Llywodraethwyr (Medi 2022 – Gorffennaf 2023

| Enw a Swydd | Yn cynrychioli: |
|---|---|
| Mr Dennis Jones - Cadeirydd | Cynrychiolydd Cymunedol Corris |
| Mrs Corina Owen-Davies – Is gadeirydd | Rhieni Pennal |
| Ms Nia Wyn Thomas | Pennaeth |
| Mrs Kayla Lockett | Staff dysgu Pennal |
| Mrs Eirlys Jones | Staff dysgu Corris |
| Mrs Janet Owen - Durham | Staff ategol Pennal |
| Mrs Elen Court | Staff ategol Corris |
| Mr Rhys Parry | Cyngor Cymuned Pennal |
| Mrs Ann Roberts | Cynrychiolydd Cymunedol Pennal |
| Mrs Sharon Wells | Cyngor Cymuned Corris |
| Mrs Miriam Breese | Rhieni Pennal |
| Mr Matt Ward | Rhieni Corris |
| Mr Nick Young | Rhieni Corris |
| Cyng Dewi Owen | AALl Pennal |
| CyngJohn Pugh Roberts | AALl Corris |
| Mrs Eirian Jones - Clerc | |

**Llawlyfr y Ffederasiwn a'r Prosbectws**
Adolygwyd llawlyfr y Ffederasiwn ar gyfer mis Medi 2023 yn ei gyfanrwydd. Gellir cael copi caled gan y Pennaeth.

**Polisïau**
Yn yr un modd trafodwyd, addaswyd a diweddarwyd pob polisi. Adolygir pob polisi ysgol un ai'n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd ac maent ar gael yn yr ysgol.

**Costau**
Ni wnaeth aelodau'r Corff Llywodraethol gais am gostau teithio a chynhaliaeth am y flwyddyn a fu.

***Clerc y Corff Llywodraethol yw Mrs Eirian Jones. Gellir cysylltu â Mrs Jones drwy gysylltu â'r Ysgol. Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff***

**Cyfarfod Blynyddol Rhieni a Llywodraethwyr**
**Ni alwyd cyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan rieni yn ystod 2021-2022**
Os dymunwch ofyn cyfarfod cael ei gynnal, ysgrifennwch at y Pennaeth fel y gellir gwneud trefniadau addas. Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig gan gynnwys enw llawn a chyfeiriad y rhiant i Gadeirydd y Llywodraethwyr (drwy'r ysgol) erbyn 30.04.24.





**Chwaraeon**
Yn ogystal â chynnal cwricwlwm statudol addysg gorfforol, bydd plant y Ffederasiwn yn cystadlu mewn rhaglen gynhwysfawr o athletau a mabolgampau yn erbyn plant yr ysgolion yn y dalgylch a thu hwnt.
Mae'r ysgol yn canolbwyntio ar agweddau o iechyd a lles o fewn gwaith thematig dosbarth ac yn ymgorffori ardaloedd tu allan i mewn i brofiadau dysgu dyddiol.

**Trefniadau Cwricwlaidd**
Yn ystod y flwyddyn parhaodd y ddwy ysgol â'i gweithrediad gyda'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, cymerwyd camau pellach i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru gan ei fod yn statudol ers Medi 2022. Rhoddwyd mwy o gyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau ynglyn â'u dysgu eu hunain.





**Dysgu ac Addysgu**
Mae'r berthynas waith i'w chanmol yma o fewn y Ffederasiwn. Rydym yn gweithio ar gwricwlwm newydd i Gymru sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru. Fel staff, defnyddir ystod o strategaethau i dracio a monitro cynnydd disgyblion. Yn ogystal â hyn, mynychodd pob aelod o staff nifer o amryw gyrsiau ar ddatblygiadau'r cwricwlwm yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl wybodaeth am y Cwricwlwm newydd ar gael ar Hwb. Drwy ein hadnabyddiaeth o anghenion bob plentyn, ein nôd yma o fewn y Ffederasiwn yw ymateb yn rhagweithiol i sicrhau bod pob disgybl unigol yn cyrraedd eu llawn potensial, beth bynnag eu gallu, a thyfu'n ddysgwyr annibynnol sy'n aelodau gwerthfawr o'n cymuned.

**Cynllun Datblygu Ysgol 2022-2023**

Mae Cynllun Datblygu y Ffederasiwn yn ddogfen fyw sydd yn cynnig cyfeiriad strategol am y flwyddyn i ddod. Llynedd roedd 4 prif flaenoriaeth.

**BLAENORIAETH 1** - Sicrhau profiadau dysgu sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ehangu a dyfnhau sgiliau trawsgwriwlaidd a chyfannol o fewn cyd-destunau dilys

**BLAENORIAETH 2** - Addasu gweithdrefnau monitro cynnydd disgyblion a pharhau i fireinio strategaethau asesu ffurfiannol ymhellach a grymuso disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus, sy'n gwybod sut i ddysgu.

**BLAENORIAETH 3** - Datblygu sgiliau llafar (yr Iaith Gymraeg) disgyblion y Ffederasiwn

**BLAENORIAETH 4** - Cynllunio a mesur effaith ymyrraethau a sicrhau cynnydd disgyblion ffin







**Trefniadaeth Dosbarth**

**Ysgol Dyffryn Dulas**
Meithrin–Blwyddyn 3 Mrs Nia Rowlands
Blwyddyn 4–6 Mrs Eirlys Wyn Jones

**Ysgol Pennal**
Meithrin–Blwyddyn 2 Mrs Kayla Lockett
Blwyddyn 3-6 Miss Manon Puw (Mrs Miriam Jones ar gyfnod mamolaeth)

**Iaith**
Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

**Dosbarth 3-8 oed**
Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy'r addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

**Dosbarth 8-11oed**
Cadarnhau datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid.

**Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd**
Mae'r Ffederasiwn wedi ymrwymo yn llawn i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn deillio o waith manwl y Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg. Ei phrif ddiben yw sicrhau bod y Gymraeg, a defnydd cymdeithasol ein plant a phobl ifanc ohoni yn ffynnu. Defnyddir saith nôd y siarter fel offerynnau i fesur cynnydd yn y defnydd o'r iaith ynghyd â llwyddiant cynlluniau ein hysgolion.




**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Mrs Kayla Lockett yw Cydlynydd ADY Ysgol Pennal, a Mrs Eirlys Wyn Jones yw Cydlynydd ADY Ysgol Dyffryn Dulas. Mrs A O Roberts yw'r Llywodraethwraig dynodedig ADY.

Mae gan lawer o blant anghenion ychwanegol o fewn maes o'r cwricwlwm neu anghenion meddygol ar ryw adeg yn eu hadeg yn yr ysgol. Weithiau rydym yn ymwybodol o hyn yn gynnar yn ystod cyfnod disgybl gyda ni neu hyd yn oed cyn iddynt ymuno, ac ar adegau eraill codi pryder yn ystod eu haddysg. O fewn y Ffederasiwn, caiff anghenion ychwanegol disgyblion eu nodi fel arfer gan yr athrawon dosbarth neu gydweithwyr drwy arsylwi, profi, asesu ac ymgynghori â rhieni, cofnodion ysgolion blaenorol ac asiantaethau iechyd. Ysgrifennwyd ein Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol gan ystyried y Cod Ymarfer ADY newydd. Ymgynghorir â rhieni a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd ADY a'r gwasanaethau cymorth, gan gynnwys adolygiad blynyddol statudol. Cynllunir darpariaeth ADY yn ofalus i sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion disgyblion yn effeithiol a bod manylion yn cael eu cofnodi a'u monitro mewn Cynlluniau Dysgu Unigol. Mae Map Darpariaeth ADY yn nodi y ddarpariaeth mae'r ysgol yn ei gynnig I disgyblion y Ffederasiwn.

**Lles**
Mae lles wedi bod yn flaenoriaeth i'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Lles yr awdurdod i gefnogi disgyblion a theuluoedd. Mae gan yr ysgol bolisi o ffrwythau yn unig fel byrbrydiau amser chwarae. Rydym yn tyfu ffrwythau a llysiau. Mae contractwyr cegin wedi dylunio eu bwyd len yn benodol i gwrdd â gofynion Blas am Oes Llywodraethwyr Cymru. Hyrwyddir bwydlen iach ar amser cinio. Dŵr yn unig sydd yn cael ei ganiatáu

**Cysylltiadau â'r Gymuned a Gweithgareddau**

Cyd-weithio ar draws y dalgylch
Prynhawniau coffi Macmillan i godi arian
Dathlu diwrnod Owain Glyndwr - Sioe deithiol gan Mewn Cymeriad
Gwasanaethau Agor y Llyfr misol yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr
Gwasanaethau Diolchgarwch cyhoeddus
Parti Nadolig y Ffederasiwn
Cinio Nadolig i'r disgyblion yn yr ysgol
Sioe Nadolig 'Noson y Gem Fawr' y Ffederasiwn
Cymryd rhan yn Ffair Nadolig Canolfan Pennal
Ymweliad tymhorol y llyfrgell deithiol
Ymweliadau y nyrs ysgol / nyrs clyw / arbenigwyr anghenion arbennig
Cymryd rhan yn Bore Coffi
Ffilmio 'Pennal mewn Partneriaeth 2050'
Cyngerdd Gŵyl Ddewi
Cefnogi Diwrnod Plant Mewn Angen
Dyddiau trosglwyddo i'r Uwchradd i Flwyddyn 6
Gwasanaethau cristingl cyhoeddus
Bu rhai o blant yr Urdd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a Sir: Canu, llefaru, parti canu a llefaru a Chelf a Chrefft
Cynhaliwyd Clwb yr Urdd i ddisgyblion Blwyddyn 2 i 6
Sioe Corris yn yr ysgol
Cystadlu yn Sioe Pennal
Cefnogi Elusen Trwyn Coch
Cyflwyniad 'Paid Cyffwrdd Dwed'
Cyflwyniadau Diogelwch y Ffordd
Gwersi nofio/gymnasteg ar y cyd yng Nghanolfan Hamdden Machynlleth yn ystod tymor y Gwanwyn.
Cafwyd cyflwyniadau tymhorol gan aelod o'r heddlu, PC Sion
Cawsom drip ysgol ar y cyd i Gelligyffwrdd
Rasio'r Trên blynyddol yng Nghorris.
Cynhaliwyd nosweithiau rhieni yn ystod y flwyddyn.
Cawsom ddiwrnod mabolgampau
Cystadlu yn 'Sportshall Meirionnydd'
Clybiau garddio dan arweiniad gwirfoddolwyr
Disgyblion yn rhan o'r cyflwyniad Laura Ashley yn y Tabernacl
Cyngerdd Haf Ysgol Pennal











**Presenoldeb Ysgol Dyffryn Dulas Corris 1.9.22 – 30.8.23**

| Grŵp | Yn bresennol | Absenoldebau awdurdodedig | Absenoldebau anawdurdodedig | Posibl | % Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol gyfan | 89.9 | 9.4 | 0.7 | 100.0 | 89.9 |

**Presenoldeb Ysgol Pennal 1.9.22 – 30.8.23**

| Grŵp | Yn bresennol | Absenoldebau awdurdodedig | Absenoldebau anawdurdodedig | Posibl | % Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol gyfan | 93.8 | 5.7 | 0.5 | 100.0 | 93.8 |

**Gwaharddiadau** –Ni fu gwaharddiadau yn ystod y flwyddyn

Mae copi o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwahardd disgyblion ar gael yn yr ysgol

**Cyfleusterau toiled a'r trefniadau i'w glanhau**
Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru. Mae'r toiledau yn cael eu harchwylio yn ystod y dydd, a chânt eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod.

**Neges gan y Pennaeth**
Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn hynod ffodus o gael plant mor arbennig yma fel disgyblion yma yn y ddwy ysgol. Felly hyderaf eu bod yn hapus, yn datblygu'n addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Ein gweledigaeth yma yn yr ysgol yw "Plant Llawen a Llwyddiannus".

O'r eiliad i mi ymuno â'r Ffederasiwn yn 2022, rwyf wedi mwynhau pob diwrnod. Mae ethos deuluol y Ffederasiwn yn eithriadol. Mae yma dîm hynod fedrus, gofalgar a chefnogol sy'n sicrhau addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion a braint gennyf yw arwain y Ffederasiwn.Mae ymroddiad y staff yn golygu bod Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas Corris ac Ysgol Pennal yn hapus ac yn ffyniannus, ac rydym oll yn falch o gyflawniadau ein disgyblion.

Hoffwn ddiolch i'r Corff Llywodraethol am eu hymroddiad gwirfoddol i'r ysgol, yn arbennig i Mr Dennis Jones, Cadeirydd y Corff Llywodraethol. Maent oll yn chwarae rhan hollbwysig yn herio, holi a chynnig syniadau er mwyn sicrhau'r gorau i'n plant. Rwy'n gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth gan rieni, pentrefwyr a llywodraethwyr wrth inni barhau i ddatblygu a gwella ein darpariaeth.

Fel y gwyddoch, rwyf pob amser ar gael i helpu os oes ganddoch chi unrhyw broblem, gwestiynau, awgrymiadau - neu os ydych dim ond eisiau sgwrs!

*Mrs Nia Wyn Thomas-Evans*

## "Plant Llawen a Llwyddiannus"





**Datganiad Ariannol**
Mae cyllideb ysgol ar y dudalen nesaf.

# 2185 - Corris

| CYFRIFON TERFYNOL 2022/2023 | Cyllideb 2022/2023 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2022/2023 | Cyfanswm Gwariant 2022/2023 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | | |
| **Cyflogau-** | | | | | |
| **Athrawon** | £159,689 | £17,765 | £177,454 | £171,156 | £6,298 |
| **Athrawon Llanw** | £8,068 | £0 | £8,068 | £8,070 | -£2 |
| **Staff Ategol -** | | | | | |
| Amser Cinio | £3,968 | £0 | £3,968 | £4,358 | -£390 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £25,427 | £1,353 | £26,780 | £28,248 | -£1,468 |
| Cymorth Gweinyddol | £4,511 | £0 | £4,511 | £4,810 | -£299 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £637 | £1 | £637 | £638 | -£1 |
| Gofalwr (Goramser) | £700 | £0 | £700 | £0 | £700 |
| | | | | | |
| **ADEILADAU** | | | | | |
| **Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol** | £1,360 | £0 | £1,360 | £881 | £479 |
| **Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo** | £3,583 | £0 | £3,583 | £3,583 | £0 |
| **CLG Gwasanaeth Eiddo** | £1,514 | £0 | £1,514 | £1,514 | £0 |
| **Costau Ynni -** | | | | | |
| Trydan | £6,630 | £0 | £6,630 | £9,222 | -£2,592 |
| Biomass | £5,650 | £0 | £5,650 | £7,339 | -£1,689 |
| Nwy | £0 | £0 | £0 | £1,634 | -£1,634 |
| Dwr | £1,880 | £0 | £1,880 | £563 | £1,317 |
| **Cynllun Rheoli Carbon** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Contract Glanhau** | £17,500 | £0 | £17,500 | £17,500 | £0 |
| **Contract Gofalu** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Contract Cynnal Tir** | £1,970 | £0 | £1,970 | £1,970 | £0 |
| **Defnyddiau Glanhau** | £1,000 | £0 | £1,000 | £572 | £428 |
| **Offer Ymladd Tan** | £100 | £0 | £100 | £110 | -£10 |
| **Trethi** | £3,530 | £0 | £3,530 | £3,530 | £0 |
| | | | | | |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | | | |
| **Lwfans y Pen** | £7,700 | £1,458 | £9,158 | £9,460 | -£302 |
| **Dodrefn** | £65 | £0 | £65 | £0 | £65 |
| **Post** | £75 | £0 | £75 | £0 | £75 |
| **Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd** | £200 | £0 | £200 | £169 | £31 |
| **CLG Swyddfa Ardal** | £2,405 | £0 | £2,405 | £2,405 | £0 |
| **CLG Gwasanaeth Cyllidol** | £449 | £0 | £449 | £449 | £0 |
| **CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm.** | £154 | £0 | £154 | £154 | £0 |
| **CLG Cyflogau** | £427 | £0 | £427 | £427 | £0 |
| **CLG Personel** | £476 | £0 | £476 | £476 | £0 |
| **CLG Arlwyaeth** | £10,830 | £0 | £10,830 | £10,830 | £0 |
| **CLG Llyfrgelloedd** | £55 | £0 | £55 | £55 | £0 |
| **CLG Archifau** | £374 | £0 | £374 | £374 | £0 |
| **Pyllau Nofio a Chwaraeon** | £350 | £0 | £350 | £750 | -£400 |
| **Gwasanaeth Cerdd** | £1,700 | £0 | £1,700 | £1,212 | £488 |
| **CLG - Cefnogaeth Technoleg** | £961 | £0 | £961 | £961 | £0 |
| **Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion** | £3,802 | £0 | £3,802 | £3,802 | £0 |
| | | | | | |
| **ARIAN WRTH GEFN** | £0 | £46,494 | £46,494 | £0 | £46,494 |
| | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £277,739 | £67,071 | £344,810 | £297,222 | £47,588 |
| | | | | | |
| **GOSODIADAU** | £0 | £0 | £0 | -£50 | £50 |
| | | | | | |
| **RHODDION / INCWM ARALL** | £0 | -£1,458 | -£1,458 | -£1,458 | £0 |
| | | | | | |
| **INCWM GWE** | £0 | -£4,725 | -£4,725 | -£4,725 | £0 |
| | | | | | |
| **DEFNYDD O FALANSAU** | -£29,970 | £29,970 | £0 | £0 | £0 |
| | | | | | |
| **GRANTIAU** | -£18,199 | -£21,794 | -£39,993 | -£39,994 | £1 |
| | | | | | |
| **LLÔG AR FALANSAU** | £0 | £0 | £0 | -£1,161 | £1,161 |
| | | | | | |
| **CYFANSWM** | £229,570 | £69,064 | £298,634 | £249,834 | £48,800 |

# 2207 - Pennal

| CYFRIFON TERFYNOL 2022/2023 | Cyllideb 2022/2023 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2022/2023 | Cyfanswm Gwariant 2022/2023 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | | |
| **Cyflogau-** | | | | | |
| **Athrawon** | £155,966 | £4,783 | £160,749 | £165,826 | -£5,077 |
| **Athrawon Llanw** | £7,398 | £0 | £7,398 | £2,793 | £4,605 |
| **Staff Ategol -** | | | | | |
| Amser Cinio | £5,750 | £1 | £5,751 | £5,999 | -£248 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £15,840 | £177 | £16,017 | £16,554 | -£537 |
| Cymorth Gweinyddol | £1,462 | £0 | £1,462 | £1,189 | £273 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £637 | £1 | £637 | £638 | -£1 |
| Gofalwr (Goramser) | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **ADEILADAU** | | | | | |
| **Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol** | £710 | £0 | £710 | £339 | £371 |
| **Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo** | £1,557 | £0 | £1,557 | £1,557 | £0 |
| **CLG Gwasanaeth Eiddo** | £873 | £0 | £873 | £873 | £0 |
| **Costau Ynni -** | | | | | |
| Olew | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Trydan | £3,920 | £0 | £3,920 | £5,643 | -£1,723 |
| Nwy | £1,620 | £0 | £1,620 | £1,965 | -£345 |
| Dwr | £530 | £0 | £530 | £1,007 | -£477 |
| **Cynllun Rheoli Carbon** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Contract Glanhau** | £6,800 | £0 | £6,800 | £6,800 | £0 |
| **Contract Gofalu** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Contract Cynnal Tir** | £480 | £0 | £480 | £480 | £0 |
| **Defnyddiau Glanhau** | £500 | £0 | £500 | £328 | £172 |
| **Offer Ymladd Tan** | £50 | £0 | £50 | £86 | -£36 |
| **Trethi** | £1,740 | £0 | £1,740 | £1,740 | £0 |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | | | |
| **Lwfans y Pen** | £7,000 | £0 | £7,000 | £6,323 | £677 |
| **Dodrefn** | £65 | £0 | £65 | £0 | £65 |
| **Post** | £150 | £0 | £150 | £0 | £150 |
| **Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd** | £250 | £0 | £250 | £194 | £56 |
| **CLG Swyddfa Ardal** | £1,772 | £0 | £1,772 | £1,772 | £0 |
| **CLG Gwasanaeth Cyllidol** | £390 | £0 | £390 | £390 | £0 |
| **CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm.** | £131 | £0 | £131 | £131 | £0 |
| **CLG Cyflogau** | £251 | £0 | £251 | £251 | £0 |
| **CLG Personel** | £281 | £0 | £281 | £281 | £0 |
| **CLG Arlwyaeth** | £7,710 | £0 | £7,710 | £7,710 | £0 |
| **CLG Llyfrgelloedd** | £55 | £0 | £55 | £55 | £0 |
| **CLG Archifau** | £374 | £0 | £374 | £374 | £0 |
| **Pyllau Nofio a Chwaraeon** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Gwasanaeth Cerdd** | £500 | £0 | £500 | £1,317 | -£817 |
| **CLG - Cefnogaeth Technoleg** | £721 | £0 | £721 | £721 | £0 |
| **Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion** | £3,079 | £0 | £3,079 | £3,079 | £0 |
| **ARIAN WRTH GEFN** | £0 | £21,162 | £21,162 | £0 | £21,162 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £228,562 | £26,123 | £254,685 | £236,415 | £18,270 |
| **GOSODIADAU** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **RHODDION / INCWM ARALL** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **INCWM GWE** | £0 | -£4,725 | -£4,725 | -£4,725 | £0 |
| **DEFNYDD O FALANSAU** | -£32,965 | £32,965 | £0 | £0 | £0 |
| **GRANTIAU** | -£11,674 | -£8,958 | -£20,632 | -£20,632 | £0 |
| **LLÔG AR FALANSAU** | £0 | £0 | £0 | -£635 | £635 |
| **CYFANSWM** | £183,923 | £45,405 | £229,328 | £210,423 | £18,905 |